**ELL 12-02(cofnodion)**

**Cofnodion Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**Dyddiad:** 26 Mehefin 2002

**Amser:** 2.00pm

**Lleoliad:** Ystafelloedd Pwyllgora 3 & 4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Presenoldeb:**

**Aelodau**

| | | |
|---|---|---|
| Gareth Jones, Cadeirydd | Plaid Cymru | Conwy |
| Lorraine Barrett | Llafur | De Caerdydd a Phenarth |
| Mick Bates | Democratiaid Rhyddfrydol | Sir Drefaldwyn |
| Cynog Dafis | Plaid Cymru | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Jane Davidson, Gweinidog y Cynulliad | Llafur | Pontypridd |
| Janice Gregory | Llafur | Ogwr |
| Ann Jones | Llafur | Dyffryn Clwyd |
| Helen Mary Jones | Plaid Cymru | Llanelli |
| Jonathan Morgan | Ceidwadwyr | Canol De Cymru |
| Alun Pugh, Dirprwy Weinidog | Llafur | Gorllewin Clwyd |

**Ymddiheuriadau**

Huw Lewis

**Dirprwyadau**

Ann Jones

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

| | |
|---|---|
| Chris Reading | Clerc |
| Holly Pembridge | Dirprwy Glerc |

**Swyddogion**

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Richard Davies | Cyfarwyddwr, Yr Adran Addysg a Hyfforddiant |
| Keith Davies | Pennaeth, Yr Is-adran Safonau a Pherfformiad |
| Elizabeth Taylor | Pennaeth, Yr Is-adran Rheoli Ysgolion |
| Mike Harper | Pennaeth, Yr Is-adran Addysgu ac Arweinyddiaeth |
| Judith Cole | Uned Cymorth Canolog, Yr Adran Addysg a Hyfforddiant |
| Sue Lovell | Yr Is-adran Addysgu ac Arweinyddiaeth |
| Andrew Felton | Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Catrin Redknap | Ymgynghorydd arbenigol y Pwyllgor ar gyfer yr adolygiad o'r Gymraeg mewn Addysg |

**Datganiadau o Fuddiant**

| | |
|---|---|
| Cynog Dafis | Athro Cofrestredig; mae ei wraig yn Athrawes Gofrestredig |
| Jane Davidson | Athrawes Gofrestredig; mae ei g•r yn ddarlithydd coleg ac yn aelod o Bwyllgor Gwaith Cymdeithas Genedlaethol Athrawon Addysg Bellach ac Uwch |
| Gareth Jones | Athro Cofrestredig; Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy; Aelod o Lys Prifysgol Cymru |

| | |
|---|---|
| Huw Lewis | Athro Cofrestredig |
| Mick Bates | Athro Cymwysedig; mae ei wraig yn Bennaeth Ysgol, yn Arolygydd Ysgolion, yn aelod o bwyllgorau ACCAC ac Estyn |
| Jonathan Morgan | Llywodraethwr Ysgol; Aelod o Lys Prifysgol Cymru |
| Lorraine Barrett | Llywodraethwr Ysgol |
| Helen Mary Jones | Athrawes Gofrestredig |
| Alun Pugh | Mae ei wraig yn ddarlithydd coleg |

**Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd**

1. Croesawodd y Cadeirydd Ann Jones a oedd yn dirprwyo dros Huw Lewis. Llongyfarchodd y Cadeirydd Huw Lewis a Lynne Neagle, ar ran y Pwyllgor, ar enedigaeth eu mab.
2. Croesawodd y Cadeirydd y Pwyllgor ac aelodau o'r cyhoedd i'r cyfarfod a gofynnodd i'r aelodau a oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant newydd. Ni chafwyd yr un.

**Eitem un: Adroddiad y Gweinidog**

***Papur: ELL 12-01(p.1)***

1. Cyflwynodd y Gweinidog ei hadroddiad ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau holi'r Gweinidog yn nhrefn y pynciau penodol fel ag yr amlinellwyd yn ei hadroddiad.
2. Codwyd y materion canlynol mewn trafodaeth:

- **Cyflog Athrawon –** croesawodd yr aelodau y £18.7m ychwanegol a fydd ar gael i awdurdodau addysg lleol (AALl) ar gyfer 2002-03 fel grant arbennig. Mynegodd aelodau bryder y byddai penaethiaid yn gorfod cwrdd â chostau parhaus ar gyfer rheoli perfformiad, mewn perthynas ag athrawon yn dringo'r raddfa gyflog. Dywedodd y Gweinidog mai dyma flwyddyn gyntaf y trefniadau newydd ar gyfer yr uwch raddfa gyflog a bod y trefniadau hyn yn mynd i'r afael â phryderon yr

undebau megis Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon a Chymdeithas Penaethiaid Uwchradd, ynghylch pwysau cyflogau a rheoli perfformiad. Nododd y Gweinidog fod y Gweinidog dros Gyllid wedi sefydlu gweithgor y trysorlys gyda llywodraeth leol i adolygu mecanweithiau ar gyfer rheoli cyflogau a pherfformiad. Dywedodd y Gweinidog fod y Mesur Addysg newydd yn amlinellu cynigion, a fyddai'n hwyluso'r drafodaeth am gyllideb rhwng AALl ac ysgolion. Mewn ymateb i gwestiwn parthed amseriad ei chyhoeddiad ynghylch cyflog athrawon, dywedodd y Gweinidog iddi benderfynu datgan y cyhoeddiad cyn gynted ag yr oedd yn ymarferol bosibl, i liniaru pryderon athrawon, a chyn diwedd mis Mai fel y disgwylid.

- **Amserlen Cydweithredu o fewn Addysg Uwch –** cyfeiriodd un aelod at adroddiad y Pwyllgor ar adolygu polisi addysg uwch a'r argymhelliad bod y Gweinidog, ELWa-Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ac Addysg Uwch Cymru yn cynnal trafodaethau gyda Phrifysgol Cymru, i adolygu'n feirniadol addasrwydd ei strwythur presennol. Gofynnwyd i'r Gweinidog a fyddai'n cwrdd â'r cyrff hyn i drafod y cynnig a amlinellwyd yn yr argymhelliad. Nododd y Gweinidog y byddai'n cwrdd â Chadeiryddion a Llywodraethwyr Sefydliadau Addysg Uwch yn anuniongyrchol maes o law. Byddid yn trafod y materion a godwyd gan Syr David Williams yn ei adroddiad diweddar ar Brifysgol Cymru.
- **Grant Dysgu'r Cynulliad** – mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, atebodd y Gweinidog fod gwybodaeth am grantiau dysgu'r Cynulliad ar gael, gan fod ymgyrch gwybodaeth wedi cael ei lansio ar 12 Mehefin. Byddai'r myfyrwyr hynny sydd eisoes yn dilyn cyrsiau addysg uwch yn cael eu hasesu'n otomatig i weld a ydynt yn gymwys i dderbyn y Grant. Byddai'r broses o asesu meini prawf cymhwyso yn cychwyn cyn gynted ag y bo modd. Byddai'r Gweinidog yn ysgrifennu at aelodau gyda nodyn yn amlinellu'r rhaglen ar gyfer y broses ymgeisio. Mynegwyd peth pryder gan aelodau ynghylch pwysau parhaus ar gyllidebau yn y sector Addysg Bellach, yn sgîl yr agenda ehangu mynediad. Dywedodd y Gweinidog mai Cyngor Cenedlaethol ELWa sy'n gyfrifol am ariannu Colegau Addysg Bellach. Dywedodd y Gweinidog ei bod wedi neilltuo £12m i'r sector addysg uwch a'r sector addysg bellach ar gyfer cronfeydd arian wrth gefn. Mynegodd y Dirprwy Weinidog bryder ynghylch camddehongli grant dysgu'r Cynulliad yn y wasg genedlaethol.
- **Consortia Addysg a Hyfforddiant Cymunedol (CAHC)** – mewn ymateb i ymholiad gan aelod, cadarnhaodd y Gweinidog bod pob CAHC yn derbyn cefnogaeth ysgrifenyddol a chefnogaeth datblygu gan Gyngor Cenedlaethol ELWa. Nododd y Gweinidog bod y 21 CAHC yn grwpiau ad hoc o randdeiliaid lleol a gynigiai argymhellion ynghylch y ffordd y dylid darparu cyfleoedd dysgu yn lleol. Dywedodd y Gweinidog bod pob CAHC eisiau ehangu cyfleoedd darparu yn eu hardaloedd lleol. Gofynnodd aelodau sut byddai Cyngor Cenedlaethol ELWa yn monitro cyflwyno'r cynlluniau. Nododd y Gweinidog mai mater i Gyngor Cenedlaethol ELWa oedd hyn.
- **Cyflogau yn y sector Addysg Bellach –** cododd aelodau bwynt ynghylch y gwahaniaeth rhwng cyflogau athrawon ysgolion uwchradd a darlithwyr colegau Addysg Bellach. Talodd y Gweinidog deyrnged i lwyddiant y sector Addysg Bellach yng Nghymru, yn arbennig y cynnydd mawr yn nifer y myfyrwyr sy'n cymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu. Sicrhaodd y Gweinidog y Pwyllgor ei bod yn ymrwymedig i helpu i sicrhau cydraddoldeb rhwng cyflogau athrawon ysgol a darlithwyr colegau Addysg Bellach. Esboniodd y Gweinidog ei bod wrthi'n trafod gydag undebau'r sector Addysg Bellach, Fforwm a cholegau Addysg Bellach unigol. Nododd y Gweinidog ei bod wedi gwahodd Fforwm i ddarparu tystiolaeth i Gyngor Cenedlaethol ELWa ynghylch yr angen am adnoddau ychwanegol i'r sector Addysg Bellach ar gyfer 2002-03.

**Eitem dau: Adolygiad Polisi – Y Gymraeg mewn Addysg – ystyried yr adroddiad drafft yn derfynol**

***Papurau: ELL 12-02(p.2)& ELL 12-02(p.3)***

2.1 Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad drafft o'i adolygiad polisi ar y Gymraeg (mewn Addysg), ei gadarnhau a nodi prif argymhellion yr adroddiad.

2.2 Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau am sylwadau ac argymhellion, a cheir crynodeb ohonynt isod.

- Cyflwynodd Helen Mary Jones, y Clerc a'r Gweinidog welliannau arfaethedig ar bapur i'r Pwyllgor. Gweler y rhain yn Atodiadau A, B ac C yn ôl eu trefn.
- Gwelliannau a gynigiwyd gan Helen Mary Jones*; derbyniwyd A1 ac A2 gydag addasiadau a thynnwyd A3 yn ôl. Roedd A4 yn berthnasol i argymhelliad 14 a chytunwyd ar ddiddymu argymhelliad 14, felly nid oedd angen A4.. Cytunwyd ar A5 o ran egwyddor a byddai swyddogion y Gweinidog yn paratoi geiriad diwygiedig. Mae hyn wedi ei wneud bellach. Derbyniwyd A6 gyda thestun ychwanegol i'w gynnwys yn yr adroddiad. Swyddogion y Gweinidog fyddai'n darparu hyn ac fe'i derbyniwyd yn y cyfamser. Cytunwyd ar welliannau B1-B7 ond tynnwyd B8 yn ôl.*
- Derbyniwyd gwelliant arfaethedig y Clerc ond penderfynwyd nad oedd angen yr argymhelliad cysylltiedig;
- Derbyniwyd gwelliant arfaethedig y Gweinidog;
- Cafwyd peth trafodaeth ynghylch pwerau Bwrdd yr Iaith Gymraeg i sicrhau bod AALl yn gweithredu'r Cynlluniau Iaith Gymraeg y cytunwyd arnynt (argymhelliad A1, gan Helen Mary Jones). Penderfynwyd y gallai'r Bwrdd, mewn amgylchiadau o'r math, gynnal adolygiad barnwrol er nad oedd ganddo bwerau uniongyrchol i orfodi cydymffurfiaeth. Cytunodd y Pwyllgor i roi "sicrhau" yn lle "monitro a gwerthuso" yn yr argymhelliad hwn.
- Mewn ymateb i ymholiad gan Jonathan Morgan, cadarnhaodd y Clerc na ddylai argymhelliad 14 yn ELL 12-02 (p.3) fod wedi ei gynnwys, gan fod y mater hwn yn cael ei gynnwys yn argymhelliad rhif 8.
- Nododd y Pwyllgor chwe phrif argymhelliad ac fe'u rhestrir yn Atodiad D.

2.2 Hysbysodd y Clerc y Pwyllgor y byddai'r adroddiad ar y cyd ar yr adolygiad polisi hwn yn cynnwys dwy ran: Rhan 1 – cyfraniad y Pwyllgor Diwylliant a Rhan 2 – cyfraniad y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes. Byddai'r adroddiad yn cynnwys crynodeb o'r holl argymhellion a byddai prif argymhellion y ddau bwyllgor yn cael eu nodi'n glir. Efallai hefyd y byddai rhai mân newidiadau i'r fformat pan fyddai'r ddwy ran yn cael eu huno, er mwyn sicrhau cysondeb.

2.3 Diolchodd y Cadeirydd i Catrin Redknap (ymgynghorydd arbenigol y pwyllgor ar yr adolygiad polisi hwn) am ei chyngor, ei hymrwymiad a'i hymroddiad.

**Eitem Tri: Cylch Cynllunio'r Gyllideb (CCC) 2002**

***Papurau: ELL 12-02 (p.4a) & (p.4b)***

3.1 Cyflwynodd y Gweinidog ei phapur i'r Pwyllgor ac yna gwahoddwyd aelodau i benderfynu ar flaenoriaethau'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn i ddod.

3.2 Codwyd y materion canlynol gan aelodau:

- Darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig (AAA);
- Gwahaniaeth rhwng cyflogau ac amodau athrawon a darlithwyr Addysg Bellach;
- Ysgolion bychain/gwledig – goblygiadau adnoddau;
- Buddsoddiad TGCh – cronfeydd a bridiannwyd;

- Grant Dysgu'r Cynulliad;
- Adolygiad Polisi - Yr Iaith Gymraeg;
- Ysgolion i gael cylch cyllideb tair-blynedd;
- Dadrithiad;
- Cronfa Datblygu Gwybodaeth mewn Addysg Uwch;
- Y gallu i ymchwilio a datblygu mewn Addysg Uwch;
- Lleihau maint dosbarthiadau yng Nghyfnod Allweddol 3;
- Cyfleoedd Cyfartal – gweithredu adroddiad Stephen Lawrence;
- Adeiladau ysgolion – rhaglen gyfalaf adnewyddu;
- Hyfforddi gweithwyr proffesiynol ym maes Anghenion Addysgol Arbennig;
- Lleihau beichiau biwrocrataidd ar ysgolion; a
- Llwybrau Diogel i'r Ysgol (o fewn portffolio y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth).

3.3 Gweler ymateb y Gweinidog i'r materion a godwyd yn y crynodeb isod:

- **AAA** –nododd y Gweinidog fod Cod Ymarfer AAA newydd yn ei gwneud hi'n haws i rieni fynnu eu hawliau. Byddai cost barhaus hefyd yn codi gyda golwg ar ddarpariaeth/gofal AAA dros y blynyddoedd nesaf;
- **Addysg Bellach –** nododd y Gweinidog bryderon yr aelodau;
- **Ysgolion Gwledig –** caiff £3.5m ei ddyrannu i ysgolion gwledig y flwyddyn nesaf;
- **TGCh** – cadarnhaodd y Gweinidog yr ymrwymiad i'r agenda dysgu, a nododd bod nawdd ychwanegol wedi cael ei ddyrannu;
- **Grant Dysgu'r Cynulliad –** nododd y Gweinidog mai hon oedd blwyddyn y 'pathfinder' a chadarnhaodd y byddid yn monitro'r nifer sy'n manteisio ar y grant o'r dechrau un;
- **Maint dosbarthiadau –** nododd y Gweinidog fod lleihau maint dosbarthiadau Cyfnod Allweddol 1 a 2 wedi ei gyflawni ac y byddid yn asesu gofynion statudol Cyfnod Allweddol 3;
- **Adroddiad Stephen Lawrence** – nododd y Gweinidog y byddai nawdd priodol ar gael trwy GEST;
- **Lleihau Beichiau Biwrocrataidd –** cadarnhaodd y Gweinidog ei hymrwymiad eto i fynd i'r afael â'r broblem hon, mewn partneriaeth ag ysgolion ac AALl;
- **Datblygiad Proffesiynnol Parhaus** - tynodd y Gweinidog sylw at raglenni DDP a oedd yn cael ei weithredu ar hyn o bryd.
- **Addysg Uwch –** nododd y Gweinidog ei bod wedi gosod ei strategaeth ar gyfer y sector Addysg Bellach yn *Ymgeisio yn Uwch;*
- **Adeiladau Ysgolion** – nododd y Gweinidog fod ganddi ddiddordeb mawr yn y mater hwn a'i bod yn falch o nodi bod yr AALl wedi gwella eu perfformiad, o ran gwario eu nawdd ar waith cyfalaf, o'i gymharu â llynedd; a
- **Dadrithiad** – nododd y Gweinidog y byddai nawdd priodol ar gael trwy GEST.

3.4 Cyflwynodd y Cadeirydd grynodeb o gyngor y Pwyllgor a oedd yn cadarnhau'r blaenoriaethau a bennwyd ym mhapur y Gweinidog ar gyfer y cyfnod llawn a gaiff ei gynnwys yn y CCC, gan ychwanegu y dylid rhoi mwy o flaenoriaeth,yn y flwyddyn gyntaf, i'r canlynol:

- Darpariaeth Addysg Bellach;
- Addysg Anghenion Arbennig (AAA); a'r
- Gymraeg mewn addysg a hyfforddiant.

Mynegodd y Pwyllgor hefyd gefnogaeth i'r cynllun Llwybrau Diogel i'r Ysgol.

Nododd y Cadeirydd y byddai'n ysgrifennu at y Gweinidog yn cadarnhau'r blaenoriaethau hyn.

**Eitem Pedwar: Cofnodion Cyfarfod 12 Mehefin**

***Papur: ELL 11-02(cofnodion)***

4.1 Derbyniodd yr aelodau bod cofnodion cyfarfod 12 Mehefin yn gofnod cywir. **Nodwyd un papur:**

**Deddfwriaeth Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru**

***Papur: ELL 12-02(p.5)***

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Mehefin 2002**

**Annex A**

***Education and Lifelong Learning Committee***

***POLICY REVIEW OF WELSH LANGUAGE***

***Amendments proposed by the Clerk***

***Paragraph 6.94*** *- delete second sentence and insert the following:*

The progress made by many pupils learning Welsh as a second language was acknowledged, as was the valuable work carried out by the *Athrawon Bro* and Centres for Latecomers. The Committee heard that the *Athrawon Bro* represent a key aspect of the language support service for pupils and their teachers, offering classroom support, teaching materials and assistance with policy matters. As noted above, they also have an important role to play in the bridging projects designed to ensure continuity of linguistic provision between Key Stages 2 and 3.

**Recommendation:** before the current Recommendation 9 ('Schools should comply ...'):

**The review currently being undertaken by Estyn of the *Athrawon Bro* service should form the basis of a strategy to expand and enhance the service provided by them.**

**Annex B**

**Policy Review of the Welsh Language**

**Education and Lifelong Learning Committee 25 June 2002**

**A) Amendments to Draft Report - proposed by Helen Mary Jones**

***Amendment 1***

Page 11 – insert new recommendation before current recommendation 2:

> **The Committee recommends that the Minster prepare a national strategic framework to ensure that rigorous mechanisms are in place for co-ordinating the planning, evaluation and development of Welsh medium and bilingual education, and that the Minster present an Action Plan to the National Assembly to outline how the objectives set out in the framework are to be delivered and which bodies are responsible for which aspects of delivery.**

***Amendment 2***

Page 11 – add at end of recommendation 2:

***", to ensure that the Action Plan is effectively delivered"***

***Amendment 3***

Page 16 - recommendation 5, in line 2 after "increasing" insert "Welsh medium," before "bilingual"

**Amendment 4**

Page 23 – recommendation 14

re-draft to read:

***The Assembly Minister should, in due course, critically review the appropriateness delivery of maintaining Welsh as a compulsory subject at Key Stage 4.***

**Amendment 5**

Page 24 – recommendation 17, re-draft so as to read:

**The Committee recommends that the Assembly Minister** should consider**, with the National Council – ELWa and HEFCW,** the scope for introducing **<u>should introduce</u> pilot language learning sabbaticals in the <u>school and</u> FE sector<u>s</u>, similar to those proposed in the HE sector, to expand the pool of practitioners able to teach Welsh and through the medium of the language.**

***Amendment 6***

Page 35 – before recommendation 30, insert new recommendation:

**The Committee recommends that the national strategic framework contains a specific commitment to ensuring that the right of pupils with special educational needs to have access to provision to meet their needs in their language of choice on the basis of equality throughout Wales is acknowledged and acted upon.**

***

B. **<u>Other suggestions for re-wording - not submitted as formal amendments, but to be raised in committee</u>**

1. **Page 9 - in 6.35**

   *Establishing this national framework should involve ~~clarifying~~* ***acknowledging***

2. **Page10 - in 6.42**

   *The Committee ~~feels~~* ***recommends*** *that the Welsh Language Board should be given sufficient resources to fulfil its statutory responsibility to ~~monitor effectively~~* **ensure** *the implementation of the schemes approved by it.*

3. **Page 10 – in Recommendation 1**

delete "of" at end of line 3 and "dialogue" at the beginning of line 4 and insert "the understanding of accountability and responsibility, and of co-operation"

**4. Page 13 – 6.59**

*The Committee is aware that one of supports the key recommendation of the Extending Entitlement report is that which states*

**5. Page 14 – 6.63**

insert new sentence at the end of paragraph: *"This stage is obviously of crucial importance ".*

**6. Page 16 – 6.73**

add at end of paragraph: *"and that the Early Years Centres should support and contribute to these developments."*

**7. Page 17 – 6.79**

first line *"In Welsh **speaking** schools"*

**8. Page 18 – 6.84**

***There should be** a strategy to facilitate expansion of this model should be based on a comprehensive audit of demand.*

**Annex C**

**Education and Lifelong Learning Committee**

**Policy Review of the Welsh Language**

**Amendment to text of draft report – proposed by the ELL Minister**

**25 June**

**Text – to be inserted prior to the recommendation below in the body of the report**

The Welsh Joint Education Committee's examination entry regulations make clear that pupils studying Welsh as a first language should **not** be entered for a second-language examination. It is inappropriate and educationally unsound for pupils who are capable of sitting a first-language examination to be entered for a second-language examination. In effect, the second-language course would represent regression and not progression for pupils who have followed the Welsh

programme of study in key stage 3.

The WJEC itself is responsible for ensuring that its entry regulations are enforced. The WJEC regulations are published annually in both the general regulations booklet and the specification for GCE and GCSE Welsh second language. Further, for each examination cycle, heads of examination centres are required to sign declarations to certify that all candidates entered for GCE and GCSE Welsh second language examinations fulfil the entry requirements.

**Recommendation – to replace existing recommendation no.9**

**Schools should comply with the WJEC examinations entry regulations and enter pupils for the most appropriate GCSE language examination**

**Annex D**

**Policy Review of the Welsh Language**

**The Committee agreed the following key recommendations;**

**The Committee recommends that the Assembly Minister should provide new guidance to improve the coherence between School Organisation Plans, Education Strategic Plans and Welsh Language Education Schemes. This guidance should focus on increasing the understanding of accountability and responsibility, and co-operation between schools, LEAs, the Welsh Language Board and the Welsh Assembly Government.**

**The Committee recommends that the Assembly Minister, with local education authorities and the Welsh Language Board, should prepare a national strategic framework to ensure that rigorous mechanisms are in place for co-ordinating the planning, evaluation and development of Welsh-medium and bilingual education.**

**The Committee acknowledges the crucial role of Welsh language immersion teaching during Early Years, and recommends that this provision should be expanded and the key role of the *Mudiad Ysgolion Meithrin* recognised.**

**The Committee recommends that the Assembly Minister should commission ACCAC, Estyn and the Welsh Language Board to establish an agreed set of criteria for assessing current levels of continuity. A thorough analysis of the reasons for the apparent lack of continuity should be undertaken, and appropriate measures should be adopted.**

**The Committee recommends that thorough research should be undertaken into the feasibility of measuring pupils' competence in Welsh along a linguistic continuum.**

**The Committee recommends that the national strategic framework should contain a specific**

**commitment to ensuring that the right of pupils with special educational needs to have access to provision to meet their needs, in their language of choice on the basis of equality throughout Wales, is acknowledged and acted upon.**